SAUNDERS, EVAN (bu farw 1742), diacon

Enw: Evan Saunders
Dyddiad marw: 1742
Plentyn: Rees Saunders
Plentyn: David Saunders
Plentyn: Thomas Saunders
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diacon
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Benjamin George Owens

Diacon ffyddlon a medrus yn yr eglwys Fedyddiedig yn y Coedgleision, Betws Bledrws; symudwyd yr eglwys honno i'w dŷ ef yn Aberduar ar ymadawiad Enoch Francis y gweinidog i fyw i ardal Castellnewydd Emlyn tua 1730. Dechreuodd bregethu ar farwolaeth y gweinidog yn 1740, ond bu yntau farw yn 1742.

DAVID SAUNDERS 'I' (bu farw 1812), gweinidog

Mab iddo, a godwyd i bregethu yn yr eglwys yn 1764 a'i ordeinio'n gyd-weinidog â Zecharias Thomas a David Davies yng ngwanwyn 1771. Ond gweinidogaeth drafferthus a gafodd yno. Sonnir am yr aelodau ym Methel, Caeo, yn diflasu arno ac yntau'n cytuno i wasnaethu'r canghennau eraill, a dywedir iddo ymuno â'r Bedyddwyr Cyffredinol, er nad oes sôn iddo gymryd gofal eglwys. Bu farw yng nghartref ei frawd Thomas Saunders yn Undergrove, Llanbedr-Pont-Steffan, 26 Ebrill 1812, yn 81 oed. Cyhoeddodd *Antigraphon; neu Wrthargraphiad Sion, yn achos y Cam-achwyniad a gafodd ... mewn Llyfr Newydd, a elwir Amddiffyniad o'r Eglwys Grist'nogol, yn bedyddio Plant Bychain*, 1780, a *Marwnad*, 1791, i William Williams, Pantycelyn.

Nai iddo, a mab Thomas Saunders, oedd David Saunders 'II', gweinidog capel Seion, Merthyr.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran (Caerfyrddin 1778) (arg. 1885), 385, 518, 522, 526, 539

David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 130, 133, 327, 329

Archifau LlGC: NLW MS 10785C

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869), 600, 658

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1930, 52; 1942, 16

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733042

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owens, B. G., (1953). SAUNDERS, EVAN (bu farw 1742), diacon. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 2 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SAUN-EVA-1742

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government